GWASANAETH TÂN AC ACHUB
GOGLEDD Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

Y Chwarter Cyntaf

Ebrill – Mehefin 2022

Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.

CYNNWYS

ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU	
YR HOLL DDIGWYDDIADAU	
Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt	1
TANAU YN ÔL CATEGORI	
Tanau yn ôl categori a chymhelliad	2
Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad	3
GALWADAU DIANGEN	
Galwadau diangen yn ôl categori	4
DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG	
Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori	5
Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Pobl Allan/Rhyddhau	6
MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU	
Tanau damweiniol mewn cartref	7
Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	8
Archwiliadau Diogel ac Iach	9
Gweithrediad larymau mwg mewn tanau damweiniol mewn cartrefi	10
GEIRFA	
Geirfa	11

1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23, mynychodd y Gwasanaeth 1,573 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 19.0% ar yr un chwarter yn 2021/22.



Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt	2022-23	1,573				1,573	↑ 19.0%	1,343	↑ 17.1%
	2021-22	1,322				1,322			
Yr holl danau	2022-23	575				575	→ 0.0%	605	↓ 4.9%
	2021-22	575				575			
Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig	2022-23	327				327	↑ 115.1%	140	↑ 134.1%
	2021-22	152				152			
Yr holl alwadau diangen	2022-23	671				671	↑ 12.8%	599	↑ 12.0%
	2021-22	595				595			

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** Bu gostyngiad o 10.4% mewn prif danau, o 251 i 225 o gymharu â chwarter cyntaf 2021/22.

2.2 **Tanau eilaidd –** Bu cynnydd o 13.0% yn y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt o gymharu â'r un chwarter yn 2021/22, gan gynyddu o 293 i 331.

2.3 **Tanau simnai –** Bu gostyngiad o 38.7% mewn tanau simnai, o 31 i 19 o gymharu â'r un chwarter yn 2021.22.



Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Prif danau	2022-23	225				225	↓ 10.4%	238	↓ 5.5%
	2021-22	251				251			
Tanau eilaidd	2022-23	331				331	↑ 13.0%	335	↓ 1.2%
	2021-22	293				293			
Tanau simnai	2022-23	19				19	↓ 38.7%	32	↓ 40.6%
	2021-22	31				31			

*Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd y cyfnod cymharol yn y 3 blynedd flaenorol gyda'r newid yn y ganran. *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cychwynnwyd 15 o brif danau yn fwriadol mewn adeiladau dibreswyl, o gymharu â 19 yn ystod chwarter cyntaf 2021/22.

3.2 Yng Ngharchar EM Berwyn, cafwyd pedwar tân bwriadol o gymharu â 13 yn ystod yr un chwarter yn 2021/22.



Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Yr holl brif danau bwriadol	2022-23	41				41	↑ 2.5%	41	→ 0.0%
	2021-22	40				40			
Yr holl brif danau dam-weiniol	2022-23	184				184	↓ 12.8%	196	↓ 6.3%
	2021-22	211				211			
*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.									

4.0 Galwadau Diangen

4.1 Yn chwarter cyntaf 2022/23 roedd 671 o alwadau diangen; cynnydd o 12.8% o 595 yn ystod yr un chwarter yn 2021/22. Bu cynnydd o 34.1% mewn AFA o 311 i 417. Gostyngodd galwadau diangen a wnaed gyda bwriad da 13.7% o 278 i 240.



	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	Cyfartaledd 3 blynedd
Larymau Tân Awtomatig	295	288	282	311	417	294
Didwyll	261	273	330	278	240	294
Maleisus	10	12	17	6	14	12
Cyfanswm	566	573	629	595	671	599

Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Yr holl alwadau diangen	2022-23	671				671	↑ 12.8%	599	↑ 12.0%
	2021-22	595				595			
Larwm Tân Awtomatig	2022-23	417				417	↑ 34.1%	294	↑ 41.8%
	2021-22	311				311			
Galwadau diangen didwyll	2022-23	240				240	↓ 13.7%	294	↓ 18.4%
	2021-22	278				278			
Maleisus	2022-23	14				14	↑ 133.3%	12	↓ 16.7%
	2021-22	6				6			

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Cynyddodd digwyddiadau gwasanaeth arbennig 115.1% i 327 yn ystod chwarter cyntaf 2022/23, o gymharu â 152 yn yr un chwarter yn 2021/22. Cynyddodd gwrthdrawiadau traffig ffyrdd 71% o 31 i 53, tra cynyddodd digwyddiadau 'Heblaw am wrthdrawiadau ar y ffyrdd' 126.4%, o 121 i 274.



	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb)	120	0	0	0	0
Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau)	103	103	65	97	196
GRFfs	43	53	17	31	53
Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad)	11	15	14	24	78
Cyfanswm	277	171	96	152	327

Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig	2022-23	327				327	↑ 115.1%	140	↑ 133.6%
	2021-22	152				152			
Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd	2022-23	53				53	↑ 71.0%	140	↓ 62.1%
	2021-22	31				31			
Heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd	2022-23	274				274	↑ 126.4%	53	↑ 417.0%
	2021-22	121				121			

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 O'r 53 wrthdrawiadau traffig ffordd yr aethpwyd atynt yn chwarter cyntaf 2022/23, arweinodd 23 (43.4%) i'r Gwasanaeth defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person anafedig o'r cerbyd. Er bod 37 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau a gafodd mwyafrif yr anafedigion.



53	o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
37	o ddigwyddiadau lle roedd pobl wedi cael anaf
23	o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau

Difrifoldeb yr Anaf *	**Nifer y bobl**
Archwiliad rhagofalus	7
Cymorth Cyntaf	9
Mân Anafiadau	32
Anafiadau difrifol	24
Marwolaethau	6

**Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ar gael, caiff y rhain eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân*

7.0 Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru - *cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Tanau damweiniol mewn cartrefi

Mynychodd y Gwasanaeth 81 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 32 yn llai nag yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22 (113) a 22.9% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 105.



Categori	Blwyddyn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Tanau damweiniol mewn cartrefi	2022-23	81				81	↓ 28.3%	105	↓ 22.9%
	2021-22	113				113			

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

8.0 Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

Ni chafwyd unrhyw farwolaethau o TDC yn ystod chwarter cyntaf 2022/23, o gymharu â thri yn ystod yr un chwarter o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Nid oedd unrhyw anafiadau difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu ag un yn ystod yr un chwarter yn 2021/22. Fodd bynnag, roedd 13 yn llai o fân anafiadau nag yn 2021/22 (15 i ddau). Gostyngodd nifer y gwiriadau rhagofalus o 17 i ddau, tra bod y nifer o bobl oedd angen cymorth cyntaf yn y lleoliad hefyd wedi gostwng o 10 i chwech.

Difrifoldeb yr anaf	**2018/19**	**2019/20**	**2020/21**	**2021/22**	**2022/23**
Archwiliad Rhagofalus	5	7	11	17	2
Cymorth Cyntaf	7	13	6	10	6
Mân Anafiadau	7	10	9	15	2
Anafiadau Difrifol	0	2	0	1	0
Marwolaeth	2	1	3	3	0
Cyfanswm	**21**	**33**	**29**	**46**	**10**

Categori	**Blwydd-yn**	**Ch.1**	**Ch.2**	**Ch.3**	**Ch.4**	**Cyfan-swm y cyfnod hyd yma**	**Newid**	**Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol**	
Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	2022-23	10				10	↓ 33	34	↓ 24
	2021-22	43				43			
Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi	2022-23	0				0	↓ 3		
	2021-22	3				3			

9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Cwblhaodd y Gwasanaeth 4,523 o Wiriadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod adrodd, a chynhaliwyd 1,595 (35.3%) ohonynt mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.



Categori	Blwydd-yn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	3 chyfnod cymharol blaenorol*	
% o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni	2022-23	35%				35%	↓ 5pp	32%	↑ 3pp
	2021-22	40%				40%			

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

10.0 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

10.1 Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er nad aeth pob un ohonynt ymlaen i weithredu. Mewn chwech o'r TDC, ni osodwyd synhwyrydd.

10.2 O'r 81 TDC, roedd 75 wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol, yr eitem wedi'i chynnau gyntaf, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.



Categori	Blwydd-yn	Ch.1	Ch.2	Ch.3	Ch.4	Cyfan-swm y cyfnod hyd yma	% y newid	Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol*	
Larwm mwg yno ac wedi seinio a rhoi rhybudd	2022-23	36				36	↓ 33.3%	51	↓ 29.4%
	2021-22	54				54			
Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd	2022-23	17				17	↓ 15.0%	20	↓ 15.0%
	2021-22	20				20			
Larwm mwg heb seinio	2022-23	22				22	↓ 15.4%	21	↑ 4.8%
	2021-22	26				26			
Larwm mwg ddim yno	2022-23	6				6	↓ 53.8%	13	↓ 53.8%
	2021-22	13				13			

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

11.0 Gorsafoedd Argaeledd

Ar 85 allan o 91 diwrnod, sicrhawyd argaeledd gorsaf o 100% – cynnydd o 27% o'r un cyfnod yn 2021/22 (67).



Cynyddodd argaeledd gorsafoedd i 93% o 74% yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.



Geirfa

Tanau	Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.
Prif Danau	Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb. Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt.
Tanau Eilaidd	Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb.
Tanau Simnai	Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun. Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.
Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig	Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys: a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb; b) Trychinebau mawr; c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb; ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau
Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol)	Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli. Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch.
Galwadau diangen – Maleisus	Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus.
Galwadau diangen – Didwyll	Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig.
Galwadau diangen – larymau tân awtomatig	Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad.